Adnabod Awdur

Anwen Francis

Bûm yn gweithio i'r BBC am chwe blynedd fel gohebydd. Erbyn hyn, rwy'n gweithio i Gyngor Sir Ceredigion fel Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol. Rwy'n briod â Rhys, ac mae ganddon ni ferch fach o'r enw Soffia. Rydw i'n dwlu ar geffylau, ac mae gen i 18 ceffyl ar hyn o bryd. Bob pythefnos rydw i a fy nheulu'n cystadlu mewn rhyw sioe neu'i gilydd gan obeithio dychwelyd adref gyda rhosglwm coch. Rwy'n gweithio nawr ar fy chweched nofel yng nghyfres Siani'r Shetland.

Dyma restr o lyfrau Anwen Francis a gyhoeddir gan Wasg Gomer:

Siani'r Shetland £4.50
Nadolig Llawen Siani £4.99
Siani'n Achub y Dydd £4.99
Campau Siani'r Shetland £4.99
Siani ar Garlam £4.99
Siani'r Shetland (CD – caneuon am Siani'r Shetland) £8.99

2007 Lluniau: Emyr Rhys Williams

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ON-LINE

Adnabod Awdur

Anwen Francis

Dyddiad Geni: 16 Ionawr 1979

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Yn Aberteifi, Ceredigion.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Aberteifi a Choleg y Drindod, Caerfyrddin.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn i'n hoffi Daearyddiaeth ond yn casáu Mathemateg.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?
Milfeddyg i ddechrau, yna athrawes ferlota.

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?
Wind in the Willows gan Kenneth Grahame.

Beth yw eich hoff ddiddordebau?
Ysgrifennu; bridio, dangos a marchogaeth ceffylau, a chymdeithasu.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Treulio amser gyda fy ngŵr Rhys, a fy merch fach Soffia.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobl sy'n gyrru'n araf pan dwi ar hast i fynd adref!

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Siani'r Shetland (Gwasg Gomer, 2003).

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Ydw, rydw i wrth fy modd yn ysgrifennu bob dydd.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
Digwyddiadau, pobl yn sgwrsio a chlecs!

Ydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc?
Ydw, ond dwi wastad yn ysgrifennu mewn modd cartrefol, gan gymysgu'r cyfoes gyda'r traddodiadol.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Gwnewch waith ymchwil a mwynhewch!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?
Oes, Beca, ac mae nifer o'r straeon yn wir!

Pa un yw eich hoff gymeriad? Rhys, brawd Beca. Mae e'n llawn drygioni a melltith!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Cael coesau hir hyd at fy motwm bol!

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Emmerdale Farm a'r ***X Factor***. Rwy'n hoff hefyd o ffilmiau arswyd.

Beth yw eich hoff fwyd? *Egg fried rice* a saws cyrri, a thato rhost Mam-gu.

Beth yw eich hoff atgof? Ennill pob cystadleuaeth ond un mewn sioe geffylau – roedd yn deimlad arbennig!

Beth yw eich hoff le yn y byd? Adref ar y fferm!

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Llun o'm ceffyl cyntaf – Spice. Roedd hi fel chwaer i fi.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Unrhyw beth! Dwi'n casáu gorfod bod yn ddifrifol.